Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad o Strategaeth y Gwasanaeth Llyfrgelloedd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Ionawr 2026

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn dan Adran 17(2)(d) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15(1)(b) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir a rhaid i chi beidio â gwneud hynny mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd y mae'r hawlfraint ynddo'n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

## Os oes arnoch angen unrhyw help gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch neges e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – fe ymatebwn ninnau i chi yn yr iaith a ddefnyddir gennych chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru'n dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cipolwg ar yr archwiliad | 4 |
| Ein canfyddiadau | 7 |
| Argymhellion | 13 |
| Atodiadau | 15 |
| 1 Ynglŷn â'n gwaith | 16 |

# Cipolwg ar yr archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

1 Fe wnaethom ystyried a oes gan y Cyngor drefniadau i helpu i gyflawni'r amcanion a nodir yn ei Strategaeth Llyfrgelloedd newydd ar gyfer y cyfnod 2025-2030. Roedd hyn yn cynnwys sut y mae'r strategaeth yn ategu polisïau ehangach y Cyngor, sut y dyrennir adnoddau i gyflawni'r strategaeth a'r trefniadau sydd gan y Cyngor i sicrhau bod y gwasanaeth llyfrgelloedd yn darparu gwerth am arian.

## Pam fod hyn yn bwysig

2 Mae dyletswydd statudol ar gynghorau dan Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964 i ddarparu 'gwasanaeth llyfrgelloedd cynhwysfawr ac effeithlon'.

3 Mae llyfrgelloedd yn dwyn budd i gymunedau ac yn helpu i ategu blaenoriaethau ehangach y Cyngor trwy:

- ddarparu mynediad cyfartal at wybodaeth trwy lyfrau, adnoddau digidol, a deunyddiau cyfeirio;
- hybu cynhwysiant cymdeithasol a digidol â chyfrifiaduron, mynediad at y rhyngrwyd, a chynhorthwy;
- creu mannau diogel ar gyfer meithrin sgiliau ac ymgysylltu cymunedol;
- cefnogi addysg a thwf economaidd trwy ddarparu adnoddau ar gyfer chwilio am swyddi a datblygiad gyrfa; a hefyd
- cefnogi iechyd meddwl a llesiant pobl, gan wneud i bobl deimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u bod wedi'u cysylltu â'u cymuned.

4 Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu set newydd o safonau llyfrgelloedd yn ddiweddar, sy’n cydnabod y rôl ganolog y gall llyfrgelloedd ei chyflawni mewn cymunedau.

5 Ym mis Mai 2024, fe newidiodd y Cyngor yn ôl i ddarparu’r gwasanaeth yn fewnol. Arferai gael ei redeg gan Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful. O ystyried y newid, mae bod â strategaeth sy’n adlewyrchu angen y gymuned, a ategir gan gynllun cyflawni cadarn ac sy’n cael ei monitro’n weithredol, yn allweddol.

## Yr hyn yr ydym wedi’i ganfod

6 Er bod gan y Cyngor Strategaeth Llyfrgelloedd newydd, rydym wedi canfod rhai diffygion yn ei datblygiad. Cyfyngedig fu’r ymgysylltu â staff a chymunedau. Hefyd, nid oes gan y Cyngor gynllun cyflawni sy’n nodi sut y bydd yn gweithredu ac yn monitro’r strategaeth. Mae hyn yn hollbwysig o ystyried yr heriau ariannol tymor canolig sy’n wynebu’r Cyngor.

7 Mae perfformiad yn erbyn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru wedi gwella, ond mae adroddiad Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2024-25 yn parhau i godi pryderon ynghylch lefelau staffio, oriau agor ac effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae’n dod i’r casgliad y bydd hi’n cymryd nifer o flynyddoedd i’r gwasanaeth ddod dros yr heriau y mae wedi’u hwynebu.

8 Mae’r Cyngor wedi canolbwyntio ar gefnogi staff wrth ddod â’r gwasanaeth yn ôl dan reolaeth y Cyngor, a gellir deall hynny. Roedd agwedd staff ynglŷn â’r gefnogaeth hon yn gadarnhaol.

9 Rydym yn cydnabod bod y Cyngor yng nghamau cynnar ei waith i ganlyn arni â’i strategaeth. Rydym wedi datblygu argymhellion sydd wedi’u bwriadu i helpu’r Cyngor i gryfhau ei drefniadau i roi cymorth i ddarparu’r gwasanaeth. Byddwn am weld y Cyngor yn bwrw ymlaen â’r rhain dros y 6-12 mis nesaf i roi mwy o hyder i ni bod ganddo drefniadau ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran sut y mae’n defnyddio adnoddau.

# Yr hyn yr ydym yn ei argymell

10 Rydym wedi gwneud tri argymhelliad ar gyfer y Cyngor sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cynllun cyflawni, monitro trefniadau ac ymdrin â heriau o ran capasiti.

# Ein canfyddiadau

## Datblygu'r strategaeth

### Er bod y Cyngor wedi cymeradwyo'r strategaeth ar gyfer y gwasanaeth, ceir diffygion o ran sut y'i datblygwyd

11 Mae Strategaeth Llyfrgelloedd y Cyngor 2025-2030 yn bodloni Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru sy'n canolbwyntio ar naw thema ac yn amcanu at rymuso a chefnogi cymunedau.

12 Byddem yn disgwyl canfod bod y Cyngor wedi ystyried y pum ffordd o weithio wrth ddatblygu ei strategaeth, i ddangos ei fod wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae'r strategaeth yn ategu amcanion llesiant y Cyngor, ond cyfyngedig yw'r dystiolaeth i awgrymu bod y Cyngor wedi ystyried angen lleol wrth ddatblygu'r strategaeth. Mae adroddiadau ategol yn sôn yn fras am ymgynghoriad a ddigwyddodd ond nid ydynt yn dangos unrhyw ganlyniadau na sut y'u haseswyd. Mae cynnwys y gymuned wrth ddatblygu'r strategaeth yn bwysig fel bod y gwasanaeth yn gallu adlewyrchu anghenion lleol.

13 Y gwasanaeth llyfrgelloedd wnaeth arwain gwaith i ddatblygu'r strategaeth. Fe wnaeth ystyried agweddau megis digidol a'r Gymraeg wrth ddrafftio'r strategaeth. Fodd bynnag, ni wnaeth unrhyw adrannau eraill ymwneud â datblygu'r strategaeth. Trwy beidio â chydweithio ag adrannau eraill, gall y strategaeth fethu â chyd-fynd yn effeithiol ag amcanion a mentrau ehangach y Cyngor. Gall hyn arwain at ddiffyg cydlyniad rhwng y gwasanaeth llyfrgelloedd a gwasanaethau eraill y Cyngor, gan leihau'r potensial ar gyfer prosiectau cydweithredol ac i ddefnyddio adnoddau yn y ffordd orau posibl. Gall fod effaith ar dderbyniad a chefnogaeth ar lefel gorfforaethol ehangach ac fe all hynny greu risg i gyflawni'r amcanion yn y strategaeth.

14 Mae cyfansoddiad y Cyngor yn nodi bod pwyllgorau craffu'n elfen hanfodol o ddemocratiaeth leol. Mae'n mynd ymlaen i ddweud y dylent gyfrannu at ddatblygiad polisïau'r Cyngor ac at gyflawni effeithlonrwydd a darparu gwasanaethau effeithiol sy'n diwallu anghenion ac yn cwrdd â dyheadau trigolion lleol. Fodd bynnag, ni wnaeth yr un o bwyllgorau craffu'r Cyngor ystyried Strategaeth Llyfrgelloedd newydd y Cyngor cyn i'r Cabinet gytuno arni ym mis Mehefin 2025. Roedd hwn yn gyfle a gollwyd i helpu i siapio strategaeth newydd y Cyngor.

## Nid oes gan y Cyngor gynllun cyflawni i ategu ei strategaeth

15 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo ddatblygu cynllun cyflawni ac fe roddodd ymrwymiad i wneud hyn pan gyflwynwyd y strategaeth i'r Cabinet ym mis Mehefin 2025. Fodd bynnag, nid oedd y Cyngor wedi bwrw ymlaen â hyn ar adeg ein hadolygiad.

16 Heb gynllun cyflawni manwl, nid yw'r Cyngor wedi adnabod y capasiti, y sgiliau a'r adnoddau y mae eu hangen i gyflawni ei strategaeth. Mae hyn yn creu risg efallai na fydd modd cyflawni'r strategaeth. Nid yw unrhyw fentrau newydd sydd yn y strategaeth yn rhai y rhoddwyd cyfrif amdanynt yn y gyllideb bresennol ar hyn o bryd.

17 Er bod y setliad ar gyfer 2026-27 yn debygol o fod yn well nag a ragwelwyd yn wreiddiol gan y Cyngor, mae'r Cyngor yn dal i wynebu heriau ariannol sylweddol dros y tymor canolig. Bydd deall yr adnoddau y mae eu hangen i gyflawni'r Strategaeth Llyfrgelloedd yn bwysig i helpu i oleuo'r broses o bennu'r gyllideb a gwneud penderfyniadau yn y dyfodol.

18 Nid yw'r Cyngor wedi egluro sut y bydd yn monitro'r modd y cyflawnir ei Strategaeth Llyfrgelloedd. Mae'r Cyngor wedi adnabod rhai heriau lefel uchel o ran y gweithlu sy'n creu risg i gyflawni'r strategaeth, ond cyfyngedig yw manylion rheolaethau. Dangosir bod rhai camau gweithredu yn dal heb gael eu cwblhau erbyn eu dyddiadau targed. O ganlyniad, ceir risg efallai na fydd y strategaeth yn cael ei rhoi ar waith fel a fwriadwyd, neu na fydd risgiau'n cael eu lliniaru'n llawn. Mae hyn yn codi cwestiynau pa un a oes gan y Cyngor drefniadau i reoli ei adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

## Staffio

### Mae'r gwasanaeth yn ymdrin â heriau parhaus o ran capasiti, ond mae wedi bod yn cefnogi staff yn weithredol yn ystod cyfnod pontio'r gwasanaeth

19 Ers mis Mai 2024, mae'r Cyngor wedi bod yn canolbwyntio ar ailddechrau darparu'r gwasanaeth fel un mewnol. Roedd gan staff y siaradom ni gyda hwy agwedd gadarnhaol ynglŷn â sut y mae'r Cyngor wedi rheoli'r newid.

20 Ar hyn o bryd nid oes gan y gwasanaeth Uwch Lyfrgellydd fel rheolwr gweithredol. Mae hyn yn creu risg bellach i gyflawni'r strategaeth gan bod y rôl yn allweddol i ddatblygu cynllun cyflawni ar gyfer y gwasanaeth. Nid oes gan y Cyngor unrhyw drefniadau amgen i ddatblygu'r cynllun hwn, pe na bai'r swydd wag hon yn cael ei llenwi.

21 Er nad oes ganddynt Uwch Lyfrgellydd yn rheolwr llinell uniongyrchol arnynt, mae staff yn cael cyfarfodydd un-i-un rheolaidd ac mae ganddynt amcanion datblygu eglur. Fodd bynnag, yn ystod cyfweliadau canfuom y gallai staff gael budd o fwy o eglurder ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau. Bydd trafodaethau pellach am anghenion dysgu'n sicrhau bod gan staff y sgiliau cywir i wireddu uchelgeisiau'r strategaeth.

22 Er bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, mae heriau o ran capasiti wedi golygu bod staff yn teimlo bod ganddynt fwy o lwyth gwaith. Fe ddwedon nhw eu bod yn ysgwyddo dyletswyddau ychwanegol ac, mewn rhai achosion, eu bod wedi gweithio ar eu pennau eu hunain mewn llyfrgelloedd gyda'r nos. I wella diogelwch staff, mae'r gwasanaeth wedi diwygio ei weithdrefnau gweithio unigol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae hyn wedi arwain at gwtogi ar oriau agor ar adegau sy'n brysur fel arfer, sy'n gallu tarfu ar y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae gan y gwasanaeth gynlluniau i adolygu ei strwythur i helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn.

23 Mae'n amlwg bod gan staff llyfrgelloedd feddwl mawr o'u cymunedau a'u bod yn gweithio'n galed i helpu pobl. Clywsom am enghreifftiau lle mae'r gwasanaeth wedi gwneud gwahaniaeth go iawn i ddefnyddwyr gwasanaethau, yn enwedig y rhai mwy agored i niwed. Mae staff yn gwneud yn siŵr bod y llyfrgell yn lle diogel a chroesawus lle gall pawb ddefnyddio'r gwahanol wasanaethau a gynigir.

## Perfformiad y gwasanaeth

### Mae'r gwasanaeth wedi gwella ei berfformiad yn erbyn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2024-25, ond ceir rhai pryderon o hyd

24 Roedd adroddiad Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2023-24 ar wasanaeth llyfrgelloedd y Cyngor yn nodi bod y sefyllfa'n achosi pryder difrifol. Adnabu bryderon ynghylch llai o gyllid ac effeithiau hynny ar staffio, oriau agor, ac adnoddau. Mae'r adroddiad yn amlygu y byddai hyn yn arwain at ddirywiad yn y gwasanaethau a gynigir i'r cymunedau lleol. Roedd adroddiad 2023-24 yn nodi:

- bod y Cyngor wedi bodloni 10 o'r 13 hawl graidd yn llawn a dau yn rhannol;
- ei fod wedi bodloni pedwar o'r saith dangosydd ansawdd yn llawn, un yn rhannol a bod dau heb eu bodloni;

- bod lefelau staffio wedi gostwng bron i draean, gan olygu nad oedd y Cyngor wedi cyrraedd y targedau ar gyfer cyfanswm staff y pen a staff cymwysedig y pen;
- bod y Cyngor yn chwartel isaf cynghorau Cymru ar gyfer perfformiad yn erbyn y targed sy'n ymwneud â deunydd darllen cyfoes a phriodol;
- nad oedd y Cyngor wedi darparu data ar ddau o'r tri dangosydd i asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl
- bod 50% o'r oedolion a arolygwyd yn teimlo bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau.

25 Yn galonogol, mae adroddiad Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2024-25 yn dangos bod y sefyllfa'n gwella:

- mae 12 o'r 13 hawl graidd wedi cael eu bodloni'n llawn ac un yn rhannol;
- mae tri o'r saith dangosydd ansawdd wedi cael eu bodloni'n llawn, un yn rhannol ac un heb gael ei fodloni;
- mae nifer y defnyddwyr sy'n mynychu digwyddiadau llyfrgelloedd wedi cynyddu fwy na 57%;
- roedd 85% o'r oedolion a arolygwyd yn teimlo bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau; a hefyd
- y pen, mae cyllideb lyfrau'r Cyngor wedi cynyddu, gan ei gwneud yn bosibl cynnig cymysgedd ehangach o lyfrau, gan gynnwys rhai Cymraeg, rhai mewn print bras, rhai llafar, a deunyddiau cyfeirio.

26 Mae'r adroddiad yn cydnabod y sefyllfa well o ran staffio gan gynnwys penodi i ddwy swydd amser llawn newydd ac un swydd ran-amser, a'r ymrwymiad i gynorthwyo aelod o staff i ennill cymhwyster proffesiynol. Ond mae'r adroddiad yn parhau i bwysleisio rhai pryderon ynghylch lefelau staffio, oriau agor a'r effaith ar ddarparu gwasanaethau. Mae'r Cyngor yn y safle isaf o blith yr holl gynghorau ar gyfer tri o'r pedwar mesur boddhad cwsmeriaid sy'n oedolion. Er ei fod wedi cyflawni cynnydd o 2% yn ei wariant refeniw y pen, mae yn y chwartel isaf o'i gymharu â chynghorau eraill Cymru. Mae adroddiad 2024-25 yn dod i'r casgliad y bydd yn cymryd nifer o flynyddoedd i'r gwasanaeth ddod dros yr heriau y mae wedi eu hwynebu. Mae hyn yn atgyfnerthu ymhellach mor bwysig ydyw bod gan y Cyngor gynllun cyflawni cadarn i ategu ei strategaeth newydd.

# Argymhellion

27 Mae’r Cyngor yng nghamau cynnar cyflawni ei Strategaeth Llyfrgelloedd newydd. Mae ein hadolygiad wedi adnabod nifer o feysydd ar gyfer gwella. Mae ein hargymhellion wedi’u bwriadu i helpu’r Cyngor i gryfhau ei drefniadau i roi cymorth i ddarparu’r gwasanaeth.

**A1** Er mwyn sicrhau y gall gyflawni ei strategaeth yn llwyddiannus dylai’r Cyngor:

**1.1** Adolygu’r strategaeth i sicrhau ei bod yn adlewyrchu angen lleol ac ennyn ymgysylltiad gwasanaethau eraill y Cyngor i hwyluso perchnogaeth gorfforaethol ac i ddefnyddio adnoddau yn y ffordd orau posibl i helpu i gyflawni amcanion y Cyngor (**paragraffau 12 ac 13**).

**1.2** Datblygu a mabwysiadu cynllun cyflawni ar gyfer y Strategaeth Llyfrgelloedd. Dylai'r cynllun hwn gynnwys cerrig milltir eglur, cyfrifoldebau wedi’u neilltuo, a dangosyddion perfformiad mesuradwy i hwyluso atebolrwydd a phroses i dracio cynnydd (**paragraff 15**).

**1.3** Ehangu trefniadau rheoli risg i fynd ati’n benodol i gynnwys risgiau i gyflawni ac adnabod sut y bydd y rhain yn cael eu lliniaru (**paragraff 18**).

**1.4** Adolygu ac adnabod yr adnoddau y mae eu hangen a chynnwys y rhain fel ystyriaeth yn ei gynllun ariannol tymor canolig (**paragraff 17**).

**A2** Er mwyn sicrhau bod ganddo’r capasiti i gyflawni ei strategaeth dylai’r Cyngor wneud y canlynol:

**2.1** Cynnal adolygiad o’r strwythur staffio i sicrhau ei fod yn addas ar gyfer y diben i weithredu’r Strategaeth Llyfrgelloedd (**paragraff 22**).

**2.2** Adnabod bylchau mewn capasiti, yn y cymysgedd o sgiliau, ac mewn cynlluniau ar gyfer olyniaeth ac ymdrin â’r rhain os oes angen (**paragraff 21**).

**A3** Dylai’r Cyngor nodi sut y bydd yn monitro’r broses o gyflawni ei strategaeth trwy wneud y canlynol:

**3.1** Datblygu a mabwysiadu trefniadau cadarn ar gyfer monitro’r modd y cyflawnir y Strategaeth Llyfrgelloedd a’r deilliannau ynddi (**paragraff 18**).

**3.2** Cyflwyno set gytbwys o fetrigau y tu hwnt i safonau statudol a sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu’n rheolaidd ac yr adroddir yn rheolaidd arnynt wrth randdeiliaid (**paragraff 18**).

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Fe wnaethom ystyried a oes gan y Cyngor drefniadau i helpu i gyflawni'r amcanion a nodir yn ei Strategaeth Llyfrgelloedd 2025-2030.

Ni wnaethom asesu trefniadau ar gyfer y cyfnod pan oedd y gwasanaeth yn cael ei reoli gan Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful. Hefyd, ni wnaethom adolygu'r cynlluniau asedau manwl ar gyfer cyfleusterau llyfrgelloedd na dulliau cydleoli. Fe wnaethom ein gwaith maes yn ystod mis Hydref 2025.

## Cwestiynau a meini prawf yr archwiliad

### Cwestiynau

Fe wnaeth ein harchwiliad ymateb i'r cwestiynau canlynol:

- A oes gan y Cyngor weledigaeth eglur o ran yr hyn y mae'n dymuno ei gyflawni â'i wasanaeth llyfrgelloedd?
- A yw'r Cyngor wedi darparu adnoddau digonol i gyflawni'r strategaeth?
- A yw'r Cyngor wedi datblygu mesurau a threfniadau monitro priodol i sicrhau bod ei strategaeth yn cael ei chyflawni'n effeithiol?

### Meini prawf

Fe ddefnyddiom ni Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru a chanllawiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i bennu ein meini prawf archwilio.

## Dulliau

Fe wnaethom fwrw golwg ar ddogfennau, cyfweld â swyddogion ac aelodau, a dadansoddi data.

## Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff eraill mewn llywodraeth leol, ac adrodd ar y rhain. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan gael cymorth ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi'r Archwilydd Cyffredinol, ei gynghori a monitro ei waith.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.